ARCHIF MENYWOD CYMRU

WOMEN'S ARCHIVE WALES

# ANNUAL REPORT

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

# 2017 – 2018

**The Women's Archive of Wales promotes the recognition of women in Welsh history and the preservation of sources of women's history in Wales**

**Mae Archif Menywod Cymru yn hyrwyddo adnabod menywod yn hanes Cymru a diogelu ffynonellau hanes menywod yng Nghymru**

**International Women's Day at the Pierhead/Diwrnod Rhyngwladol Menywod yn y Pierhead**

www.womensarchivewales.org

**Registered Charity No. / Elusen Gofrestredig Rhif. 1158204**

## PRESIDENT'S INTRODUCTION – PROFESSOR DEIRDRE BEDDOE
## CYFLWYNIAD Y LLYWYDD – YR ATHRO DEIRDRE BEDDOE

Once again it is a pleasure to introduce a report which demonstrates that Women's Archive Wales has achieved a great deal during this year; including a very successful Conference and public lecture at the Eisteddfod and receiving another grant from the Heritage Lottery Fund to celebrate the Century of Hope 1918-2018. The Archive has also strengthened its links and partnerships with several other organisations and this is a mark of how we have raised our profile and become a mainstream women's organisation in Wales. My sincere thanks to the committee and its Officers for their commitment to the aims and aspirations of the Archive. It was a pleasure too to see Jenny Sabine back as Chair albeit only until the October AGM – Thank you Jenny for all your hard work and firm leadership during the past years.

Unwaith eto mae'n bleser cyflwyno adroddiad sy'n dangos bod Archif Menywod Cymru wedi cyflawni llawer iawn yn ystod y flwyddyn dan sylw. Cafwyd Cynhadledd Flynyddol hynod lwyddiannus a darlith gyhoeddus ysbrydoledig yn yr Eisteddfod ac yna derbyniwyd grant arall gan Gronfa Treftadaeth y Loteri i ddathlu Canrif Gobaith 1918-2018. Mae'r Archif wedi cryfhau ei chysylltiadau a'i phartneriaethau â mudiadau eraill hefyd a dengys hyn sut yr ydym wedi codi ein proffil a dod yn rhan o brif ffrwd mudiadau menywod yng Nghymru. Diolchaf yn ddidwyll i'r pwyllgor a'i Swyddogion am eu hymroddiad i amcanion a dyheadau'r Archif. Roedd hi'n braf gweld Jenny Sabine yn ôl yn y Gadair er mai dim ond tan fis Hydref y bu hynny. Diolch Jenny am eich llafur a'ch arweiniad cadarn dros nifer fawr o flynyddoedd.

## CHAIR'S REPORT: April 2017 – March 2018

## ADRODDIAD Y CADEIRYDD: Ebrill 2017 – Mawrth 2018

Once again Archif Menywod Cymru / Women's Archive Wales has continued to maintain and progress our key aims of promoting the public education and awareness of women's history in Wales, seeking and preserving the records of women's lives in Wales and facilitating public access to them. During the year under review we have achieved much by our own efforts and also, importantly, by working with other organisations.

**In all our work throughout the year the Trustees have kept in mind the Charity Commission's guidance on public benefit, and done our best to ensure it has been followed.**

Yn ystod y flwyddyn dan sylw mae Archif Menywod Cymru / Women's Archive Wales wedi parhau i gynnal a hyrwyddo ein hamcanion allweddol, sef hybu addysg gyhoeddus ac ymwybyddiaeth o hanes menywod yng Nghymru, gan geisio dod o hyd i a diogelu cofnodion hanesion bywydau menywod yng Nghymru a hwyluso mynediad atynt. Yn ystod y flwyddyn dan sylw rydym wedi cael cryn lwyddiant trwy ein hymdrechion ein hunain ac yn bwysicach trwy weithio gyda sefydliadau eraill.

**Gydol y flwyddyn, yn ein holl waith, mae'r Ymddiriedolwyr wedi cadw mewn cof ganllawiau'r Comisiwn Elusennau i fod o fudd i'r cyhoedd, ac i wneud ein gorau i ddilyn y canllawiau hynny.**

## THE YEAR UNDER REVIEW

The work of the Committee this year has focussed largely on two projects: creating a new website, and developing a grant application to the Heritage Lottery Fund.

In early 2017 we commissioned Waters Creative to create the website, and a small working group formed to liaise with them and provide the content. This work continued through the first half of the current year, Avril Rolph and Jenny Sabine writing most of the text and Gail Allen and Sue Thomas dealing with the important Membership pages and the provision of PayPal facilities; Catrin Stevens undertook the enormous job of translation. During the process a more elegant logo was designed and the 'of' dropped from the English version of the Archive's name. Committee members were encouraged to provide photos of themselves, choose an image from the AMC/WAW collection and explain the reason for their choice. This is a way to introduce committee members to the wider membership and it is hoped in time that the website will become a forum for all members to communicate over matters of research and common interests, as well as being a 'shop window' of our work to the wider world. The website 'went live' in October but continues to develop and grow.

As AMC/WAW approached the 20th anniversary of its founding (8 December 1997) the committee was anxious to launch a project to mark this occasion and celebrate the achievements of women in Wales, from the granting of partial women's suffrage in 1918 to the present time.

**Pembroke Dock Suffragettes / Swffragetiaid Doc Penfro**

A number of proposals were put forward and discussed with the Heritage Lottery Fund, which has been so generous to us over research projects in the past. At the same time we were receiving suggestions and invitations from a variety of organisations in Wales to collaborate with them in celebrating this significant year. This seemed the perfect way to mark our anniversary year and at the same time to work with others in a way that would widen our focus and fulfil our key aims. Again, a small working group of committee members formed to develop our Canrif Gobaith / Century of Hope project and apply for HLF funding. In December 2017 we were thrilled to receive a positive response from HLF, and in January the project got underway. We were fortunate to be able to appoint three officers part-time: two film-makers, Catrin Edwards and Tash Horton and one events' officer: Heulwen Davies.

The project had two main aims: to record the memories and experiences of early and significant members of AMC/WAW and this was undertaken immediately. Indeed, by the end of March eight speakers had already been interviewed. A film workshop had also been held on February 26th at Glamorgan Archives. The second strand was to organise 10-12 events around Wales to celebrate a century of Women's Heritage in Wales. These events would encompass Wales and seek to attract new members and raise the profile of the Archive. By the end of March two events had taken place. The two film-makers worked with Ysgol Pen-boyr in Carmarthenshire to help them chronicle and film the story of Cranogwen 'a woman before her time' and to prepare their project for the Welsh Heritage School's Initiative competition. The second event was 'International Women's Day' on March 8th and was run in partnership with the University of South Wales. It was held through the sponsorship of Ann Jones, Deputy Presiding Officer in the Welsh Assembly, at the Pierhead building. The theme of the Conference was 'Women and Activism, Yesterday and Today' and was well attended with a capacity audience. The first lecture, on the background to the women's suffrage movement and its significance in England and Wales, was delivered by Elin Jones and was followed by an overview of the founding and development of AMC/WAW during the past twenty years. Avril Rolph, Jenny Sabine, Catrin Stevens and Neil Evans took part, with Chris Chapman in the Chair. In the evening the Annual Ursula Masson Memorial Lecture was held in the Senedd and it was delivered this year by Dr Ryland Wallace on the topic 'The Women's Suffrage Movement in Wales'. This was a fitting tribute to the memory of Ursula Masson who died ten years ago. A further ten events are scheduled for the rest of 2018.

The Voices from the Factory Floor project, another HLF funded project, continues to attract media and other attention. There has been a significant demand for public lectures and Catrin Edwards, one of the Field Officers, is still developing a musical presentation on the theme. Wall to Wall Media Company also contacted us as they were preparing a Living History programme on factory life and wished for advice and to use some of our images and extracts from the interviews.

The HLF funded Women and War: The Welsh Experience project is also on-going with Caroline Fairclough adding new entries on women at frequent intervals. Once again there have been many lectures on this topic to women's and local history groups.

Other committee members, notably Elin Jones, Chris Chapman, Jenny Sabine, Caroline Fairclough, Catrin Stevens, Dinah Evans, Gwyneth Roberts and Shan Robinson, have given many public talks and appeared on the media during the year – grateful thanks to all the speakers for spreading the word about women's history and Women's Archive Wales. Jean Silvan Evans, an AMC/WAW member, has also ensured publicity for our work through her newspaper articles.

Through the generosity of an Archive member, we are able to offer a prize in the Welsh Heritage Schools' Initiative annual award scheme for a school project which features a strong element of women's history. From a low start some ten years ago, entries which answer this remit have increased steadily, and this year there were seven such entries. At the Award Ceremony in Carmarthen on 7 July, Avril Rolph presented our prize to Cross Hands Primary School for an excellent project about women's roles in World War II, contrasting them with the more recent war in Afghanistan.

In August, at the Anglesey National Eisteddfod, Manon Eames delivered a splendid lecture, 'Merched, Môn a'r Môr', commemorating the work of her father Dr Aled Eames and also Robin Evans, both of whom wrote about women and the sea in Wales. We are very grateful to Janet Evans (Robin Evans' widow) for sponsoring the event. Elin Jones chaired and introduced the talk to an enthusiastic audience. Grateful thanks to the Eisteddfod sub-group, Sian Rhiannon Williams, Rosanne Reeves, Elin Jones and Catrin Stevens, which organises this event annually.

Our 20th Annual Conference was held in Aberystwyth this year. The conference was splendidly organised by a group of local members, Jane Aaron, Eurwen Booth, Llinos Dafis, and Gwyneth Roberts. A mark of their success was that the Call for Papers attracted so many excellent offers that parallel sessions were arranged to accommodate as many as possible. The event was a huge success with more attendees in 2017 than ever before, the talks were of a high standard and the venue was excellent. The Conference Dinner was very popular and enjoyed by all. Following the Conference, one of the speakers, Rachel Rowlands of Rachel's Dairy took a video archive of her business to be deposited in the National Screen and Sound Archive in AMC/WAW's name. We also received several of the papers delivered at the Conference to be placed on our website.

**Rachel Rowlands of/o Rachel's Dairy**

The North Wales group has continued to be active during the year. They have participated in the Women's History Wall in Bangor University and on March 20th in a Women's History Seminar. Grateful thanks to them for their continued enthusiasm for women's history.

The newsletter has appeared with Caroline Fairclough as editor with admirable regularity four times a year and is always full of interesting and relevant articles on womens' history and AMC/WAW's activities.

We bought four new pop-ups early in 2018 and these will be used in all AMC/WAW's events in 2018.

## Y FLWYDDYN DAN SYLW

Mae gwaith y Pwyllgor eleni wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddau brosiect: creu gwefan newydd a datblygu cais am grant i Gronfa Treftadaeth y Loteri.

Yn gynnar yn 2017 comisiynwyd Waters Creative i greu'r wefan, a ffurfiwyd gweithgor bach i gydweithio â nhw ac i ddarparu'r cynnwys. Parhaodd y gwaith gydol hanner cyntaf y flwyddyn gyfredol, gydag Avril Rolph a Jenny Sabine yn ysgrifennu'r rhan fwyaf o'r testun a Gail Allen a Sue Thomas yn delio â'r tudalennau aelodaeth pwysig a darpariaeth cyfleusterau PayPal; ymgymerodd Catrin Stevens â'r dasg enfawr o gyfieithu'r cyfan. Yn ystod y broses cynlluniwyd logo mwy cain a gollyngwyd yr 'of' o fersiwn Saesneg enw'r Archif. Anogwyd aelodau'r Pwyllgor i ddarparu ffotograffau ohonynt eu hunain, dewis delwedd o gasgliadau AMC/WAW ac i egluro'u dewis. Trwy hyn cyflwynwyd aelodau'r pwyllgor i'r aelodaeth ehangach a gobeithio y bydd y wefan yn datblygu gydag amser yn fforwm i'n holl aelodau

gyfathrebu am eu hymchwil a'u diddordebau cyffredin, yn ogystal â bod yn ddrych i'n gwaith i'r byd. Roedd y wefan yn weithredol o fis Hydref ond daliwn i'w datblygu a'i mireinio.

Wrth i AMC/WAW nesáu at 20fed pen-blwydd ei sefydlu (8 Rhagfyr 1997) roedd y pwyllgor yn awyddus i lansio prosiect i nodi'r achlysur ac i ddathlu llwyddiannau menywod yng Nghymru, o fenywod yn ennill y bleidlais yn 1918 tan heddiw.

Cynigiwyd nifer o syniadau a thrafodwyd hwy gyda Chronfa Treftadaeth y Loteri, sydd wedi bod mor hael i'n prosiectau ymchwil yn y gorffennol. Ar yr un pryd roeddem yn derbyn sawl awgrym a gwahoddiad oddi wrth fudiadau amrywiol yng Nghymru i gydweithio i ddathlu'r flwyddyn arwyddocaol hon. Gwelwyd y byddai hon yn ffordd ddelfrydol i nodi'n pen-blwydd ac ar yr un pryd i gydweithio ag eraill mewn ffordd a fyddai'n ehangu ein ffocws ac yn cyflawni ein prif amcanion. Unwaith eto, ffurfiwyd gweithgor bychan i ddatblygu ein prosiect: Canrif Gobaith / Century of Hope ac i geisio am gyllid CTL. Yn Rhagfyr 2017 roeddem wrth ein bodd i dderbyn ymateb cadarnhaol gan CTL, ac yn Ionawr dechreuwyd ar y prosiect. Roeddem yn ffodus i benodi tri swyddog rhan amser: dwy wneuthurwraig ffilm, Catrin Edwards a Tash Horton ac un swyddog digwyddiadau, Heulwen Davies.

Dau brif nod y prosiect yw: recordio atgofion a phrofiadau aelodau cynnar ac allweddol AMC/WAW a dechreuwyd ar hyn ar unwaith. Yn wir, erbyn diwedd Mawrth roedd wyth siaradwraig wedi eu cyfweld. At hyn cynhaliwyd gweithdy ffilm ar Chwefror 26ain yn Archifau Morgannwg. Yr ail elfen oedd trefnu 10-12 digwyddiad ledled Cymru i ddathlu canrif o Dreftadaeth Menywod yng Nghymru. Byddai'r digwyddiadau hyn yn cwmpasu'r wlad ac yn ceisio denu aelodau newydd a chodi proffil yr Archif. Erbyn diwedd Mawrth roedd dau ddigwyddiad wedi eu cynnal. Bu'r ddwy wneuthurwraig ffilm yn cydweithio gyda disgyblion Ysgol Pen-boyr yn Sir Gaerfyrddin i helpu croniclo a ffilmio hanes Cranogwen 'menyw o flaen ei hamser' ac i baratoi eu prosiect ar gyfer cystadleuaeth Menter Treftadaeth yr Ysgolion Cymreig. Yr ail ddigwyddiad oedd 'Diwrnod Rhyngwladol Menywod' ar Fawrth 8fed a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru. Cynhaliwyd y digwyddiad trwy nawdd Ann Jones, Dirprwy Lywydd y Cynulliad, yn adeilad y Pierhead. 'Menywod a Gweithredu, Ddoe a Heddiw' oedd thema'r Gynhadledd a daeth cynulleidfa deilwng iawn ynghyd. Traddodwyd y ddarlith gyntaf, ar gefndir y mudiad rhyddfreinio menywod a'i arwyddocâd yng Nghymru a Lloegr, gan Elin Jones a dilynwyd hon gan orolwg o sefydlu a datblygiad AMC/WAW yn ystod yr ugain mlynedd ddiwethaf. Cymerwyd rhan gan Avril Rolph, Jenny Sabine, Catrin Stevens a Neil Evans gyda Chris Chapman yn y Gadair. Gyda'r nos cynhaliwyd Darlith Goffa Flynyddol Ursula Masson yn y Senedd a thraddodwyd hi eleni gan Dr Ryland Wallace ar y pwnc 'The Women's Suffrage Movement in Wales'. Roedd hon yn deyrnged deilwng i goffáu Ursula Masson a fu farw ddeng mlynedd yn ôl. Mae deg digwyddiad arall wedi eu cynllunio ar gyfer gweddill 2018.

Mae prosiect arall a noddwyd gan grant CTL, sef Lleisiau o Lawr y Ffatri yn dal i ddenu sylw'r cyfryngau ac eraill. Cafwyd galw mawr am ddarlithoedd cyhoeddus ac mae Catrin Edwards un o'r Swyddogion Maes wrthi'n datblygu cyflwyniad cerddorol ar y thema. Cysylltodd Cwmni Cyfryngau Wall to Wall â ni wrth iddo baratoi rhaglen Hanes Byw am fywyd mewn ffatri gan ofyn am gyngor ac am ddefnyddio ein delweddau a detholiadau o'n cyfweliadau.

Mae'r prosiect CTL arall: Menywod a Rhyfel: Y Profiad Cymreig yn parhau i gael ei ddatblygu ac mae Caroline Fairclough yn ychwanegu cofnodion newydd am fenywod yn rheolaidd. Unwaith eto, cynhaliwyd llawer o ddarlithoedd ar y pwnc hwn i fudiadau menywod a grwpiau hanes lleol.

Mae aelodau eraill o'r pwyllgor, yn eu plith Elin Jones, Chris Chapman, Jenny Sabine, Caroline Fairclough, Catrin Stevens, Dinah Evans, Gwyneth Roberts a Shan Robinson, wedi traddodi llawer o ddarlithoedd cyhoeddus ac wedi bod ar y cyfryngau yn ystod y flwyddyn – diolch o galon iddynt am ledaenu'r neges am hanes menywod ac am Archif Menywod Cymru. Mae aelod arall o AMC/WAW, Jean Silvan Evans, wedi sicrhau cyhoeddusrwydd i'n gwaith eleni trwy ei herthyglau papur newydd.

Trwy haelioni aelod o'r Archif galluogwyd ni i gynnig gwobr yng nghystadleuaeth flynyddol Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig am brosiect ysgol sy'n cynnwys elfen gref o hanes menywod. O ddechrau gwantan ryw ddeng mlynedd yn ôl, mae nifer y cystadleuwyr sy'n ateb y gofyn wedi cynyddu'n raddol ac eleni roedd saith ymgais ar y testun hwn. Yn y Seremoni Wobrwyo yng Nghaerfyrddin ar 7fed Gorffennaf, cyflwynodd Avril Rolph ein gwobr i Ysgol Gynradd Cross Hands am brosiect ardderchog am rolau menywod yn yr Ail Ryfel Byd gan wrthgyferbynnu hynny â'r rhyfel mwy diweddar yn Afghanistan.

Ym mis Awst, yn Eisteddfod Genedlaethol Môn traddododd Manon Eames ddarlith ardderchog 'Merched, Môn a'r Mor', yn deyrnged i waith ei thad, Dr Aled Eames a Robin Evans, ill dau yn haneswyr a ysgrifennodd am fenywod a'r môr yng Nghymru. Rydym yn hynod ddiolchgar i Janet Evans (gweddw Robin Evans) am noddi'r digwyddiad. Cadeiriodd  Elin Jones y sesiwn a chyflwynodd y sgwrs i gynulleidfa frwd. Rhaid diolch i is-grŵp yr Eisteddfod, Sian Rhiannon Williams, Rosanne Reeves, Elin Jones a Catrin Stevens, am drefnu'r digwyddiad hwn bob blwyddyn.

Cynhaliwyd ein 20fed Cynhadledd Flynyddol yn Aberystwyth eleni. Trefnwyd y gynhadledd yn wych gan grŵp o aelodau lleol, Jane Aaron, Eurwen Booth, Llinos Dafis, and Gwyneth Roberts.  Cafwyd cnwd mawr a difyr o gynigion i roi papur ac felly bu'n rhaid trefnu sesiynau paralel i roi cyfle teg i bawb. Bu'r digwyddiad yn llwyddiant arbennig, gyda'r nifer mwyaf i fynychu ein Cynhadledd hyd yn hyn; roedd y darlithoedd o safon uchel a'r lleoliad yn ardderchog. Roedd Cinio'r Gynhadledd yn boblogaidd ac yn ddifyr iawn. Yn dilyn y Gynhadledd rhoddodd un o'r siaradwyr, Rachel Rowlands o Rachel's Dairy archif fideo am ei busnes ar adnau yn yr Archif Sgrin a Sain Genedlaethol yn enw AMC/WAW.  At hyn derbyniwyd nifer o'r papurau o'r Gynhadledd i'w rhoi ar ein gwefan.

Mae grŵp Gogledd Cymru yn parhau yn brysur drwy'r flwyddyn. Buon nhw'n cyfrannu at y Mur Hanes Menywod ym Mhrifysgol Bangor ac ar Fawrth 20fed mewn Seminar Hanes Menywod. Diolch yn fawr iddynt am eu brwdfrydedd parhaus dros hanes menywod.

Mae'r cylchlythyr, dan olygyddiaeth Caroline Fairclough yn parhau i ymddangos yn rheolaidd bedair gwaith y flwyddyn ac mae bob amser yn llawn o erthyglau diddorol a pherthnasol am hanes menywod a gweithgareddau AMC/WAW.

Prynon ni bedwar 'pop-up' newydd yn gynnar yn 2018 a chânt eu defnyddio yn holl ddigwyddiadau AMC/WAW yn 2018.




**Two new pop-ups – Dau 'pop-up' newydd**

## Members and Committee

The Committee has worked hard during the year, with each member bearing responsibility for one or more areas of activity. We meet bi-monthly, using the video-conference facilities in Bangor, Aberystwyth and Swansea kindly provided by the respective universities. Sadly, Emma Naughton, who joined the committee at the AGM in 2016, has had to resign due to ill health. Christine Chapman took her place and was formally instated at the 2017 AGM. Also at the AGM, Jenny Sabine resigned as Chair, and Catrin Stevens was elected in her place. Avril Rolph continued the role of Administrative Secretary with her usual efficiency, as did Shan Robinson as Minutes Secretary. Gail Allen as Treasurer and Sue Thomas as Membership Secretary have particularly exacting roles, Caroline Fairclough has produced the members' Newsletter regularly each quarter and Val Wakefield, Dinah Evans, Sue Trevelyan Jones and Shan Robinson keep the AMC/WAW flag flying in North Wales. A new development is that two committee members, Elin Jones and Dinah Evans have undertaken to promote frequent reports and articles about the work of the Archive in the media.

We were delighted too that we enrolled two new members to the committee: Gwyneth Roberts, author and researcher at Aberystwyth and Kate Sullivan a former project officer with AMC/WAW from Dolgellau, thus strengthening our presence in mid-Wales considerably. Catrin Edwards left the Committee in January 2018 to become film-maker for the new HLF project. Chris Chapman agreed to stand as Vice-chair.

## Aelodau'r Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor wedi parhau i weithio'n galed gydol y flwyddyn, gyda phob aelod yn ysgwyddo cyfrifoldeb am un neu fwy o'r gweithgareddau. Rydym yn cyfarfod bob deufis, gan ddefnyddio cyfleusterau cynadledda fideo ym Mangor, Aberystwyth ac Abertawe, a ganiateir i ni trwy garedigrwydd y prifysgolion hyn. Yn anffodus bu'n rhaid i Emma

Naughton, a ymunodd â'r Pwyllgor yn y Cyfarfod Blynyddol yn 2016, ymddiswyddo oherwydd gwaeledd. Daeth Christine Chapman i gymryd ei lle a derbyniwyd hi'n ffurfiol yng Nghyfarfod Blynyddol 2017. Yn yr un Cyfarfod Blynyddol ymddeolodd Jenny Sabine o'r Gadair ac etholwyd Catrin Stevens yn ei lle. Parhaodd Avril Rolph i weithredu yn Ysgrifennydd Gweinyddol gyda'i heffeithiolrwydd arferol, a Shan Robinson yn Ysgrifennydd Cofnodion yn yr un modd. Mae gan Gail Allen, Trysorydd a Sue Thomas Ysgrifennydd Aelodaeth rolau hollbwysig a chyfrifol iawn, mae Caroline Fairclough wedi cynhyrchu Cylchlythyron i aelodau yn rheolaidd bob chwarter, ac mae Val Wakefield, Dinah Evans, Sue Trevelyan Jones a Shan Robinson yn cadw baner AMC/WAW yn chwifio yng ngogledd Cymru. Datblygiad newydd fu i ddwy aelod o'r pwyllgor, Elin Jones a Dinah Evans ymgymryd â pharatoi adroddiadau ac erthyglau rheolaidd am waith yr Archif ar gyfer y cyfryngau.

Rydym wrth ein boddau hefyd inni lwyddo i sicrhau dwy aelod newydd i'r pwyllgor: Gwyneth Roberts, awdur ac ymchwilydd yn Aberystwyth a Kate Sullivan cyn-swyddog prosiect gydag AMC/WAW o Ddolgellau, gan atgyfnerthu ein presenoldeb yng nghanolbarth Cymru yn sylweddol. Gadawodd Catrin Edwards y Pwyllgor yn Ionawr 2018 er mwyn gweithredu yn ffilmwraig y prosiect CTL newydd. Cytunodd Chris Chapman i sefyll yn Is-gadeirydd.

**Collections**

Following discussions between Jenny Sabine, Avril Rolph, Susan Edwards and Rhian Diggins of Glamorgan Archives on February 9th it was suggested, and agreed by committee, that potential donors could be dealt with directly by Glamorgan Archives Services (who act as our Collections' Advisors) without direct AMC/WAW involvement in future. Requests to use AMC/WAW collections would still be directed to AMC/WAW committee. Collection-level descriptions of deposits would be made directly to other archive services to be linked to our website as accessible sources of women's history. This proposal was also accepted in a meeting of professional archivists from all over Wales.

**Casgliadau**

Yn dilyn trafodaethau rhwng Jenny Sabine, Avril Rolph, Susan Edwards a Rhian Diggins o Archifau Morgannwg ar Chwefror 9fed awgrymwyd a chytunwyd gan y pwyllgor, y gellid delio yn y dyfodol â noddwyr posibl yn uniongyrchol gan Wasanaeth Archifau Morgannwg (sy'n gweithredu yn Ymgynghorwyr Casgliadau i ni) heb i AMC/WAW ymwneud yn uniongyrchol â nhw. Byddai ceisiadau i ddefnyddio casgliadau AMC/WAW yn dal i gael eu cyfeirio at bwyllgor AMC/WAW. Caiff disgrifiadau lefel-casgliad eu gwneud yn uniongyrchol i wasanaethau archifol eraill i'w cysylltu â'n gwefan, fel y byddant yn ffynonellau hygyrch am hanes menywod. Derbyniwyd y cynnig hwn mewn cyfarfod o archifyddion proffesiynol o bob rhan o Gymru.

**Other events during the year**

AMC/WAW collaborated with the Women's History Network West of England and South Wales to organise a Day School on Women and Peace in Abergavenny on 13 May. This was a well attended and successful event.

We collaborated with Chwarae Teg to create a PowerPoint display for their Womenspire Award ceremony on 2 June in the Millennium Centre, which included many images from the AMC/WAW collection.

The National Screen & Sound Archive invited us to their open day in Aberystwyth on 4 October. They now hold a number of sound and film collections deposited by AMC/WAW.

On December 6th Avril Rolph and Catrin Stevens attended the unveiling of the plaque in Carmarthen by Carmarthen Civic Society to Dorothea Bate 1878-1951, pioneer palaeontologist.

Welsh Women's Aid invited us to join their 40th anniversary celebrations at Y Senedd on January 25th. It was an interesting day with good networking opportunities.

AMC/WAW submitted names of suffragettes and suffragists from Wales to be considered for the Women's Local Government Society Suffrage Pioneers campaign and we were pleased to understand that Margaret Haig Thomas (Lady Rhondda), Emily Phipps, Professor Millicent MacKenzie and Charlotte Price White, who had all been nominated by AMC/WAW, have been included among the final list of Pioneers.

Feminist and Women's Libraries and Archives Network: we agreed to remain a member of this organisation and to attend meetings when convenient.

We have been contacted by several TV companies e.g. One Tribe regarding a programme on women adventurers and another on the Abortion Act. Members have responded proactively to all such requests for information.

Several members attended the opening of the Suffrage Exhibition in Y Senedd and the unveiling of the purple plaque to Val Feld AM on March 6th. Catrin Stevens spoke briefly on behalf of AMC/WAW.

West Glamorgan Archive Service: Jenny Sabine and Catrin Stevens attended several meetings regarding an exhibition of pioneer campaigners for the vote in the area and which will be available for the 2018 Conference in Swansea.

Elin Jones represented AMC/WAW on the Monumental Welsh Women group chaired by Helen Molyneux.

Chris Chapman attended the Commonwealth's Women's Parliamentary reception at the Pierhead on our behalf on 13th March.

Catrin Stevens gave a talk to WEN Women's Equality Network – March 21st at the Norwegian Church, Cardiff about the history of AMC/WAW and the history of the suffrage movement in Wales.

**Unveiling the purple plaque to Val Feld AM in Y Senedd**

**Dadorchuddio'r plac glas i Val Feld AC yn y Senedd**

## Digwyddiadau eraill yn ystod y flwyddyn

Cydweithiodd AMC/WAW â'r Women's History Network West of England and South Wales i drefnu Ysgol Undydd ar Fenywod a Heddwch yn y Fenni ar 13eg Mai. Roedd nifer teilwng yn y digwyddiad llwyddiannus hwn.

Cydweithion ni â Chwarae Teg i greu arddangosfa Pwerbwynt ar gyfer ei seremoni Gwobrau Womenspire ar 2il Mehefin yng Nghanolfan y Mileniwm. Roedd hwn yn cynnwys llawer o ddelweddau o gasgliad AMC/WAW.

Gwahoddodd Archif Sgrin a Sain Genedlaethol Cymru ni i'w diwrnod agored yn Aberystwyth ar 4ydd Hydref. Mae ganddynt erbyn hyn nifer o gasgliadau sain a ffilm a roddwyd ar adnau gan AMC/WAW.

Ar Ragfyr 6ed mynychodd Avril Rolph a Catrin Stevens seremoni dadorchuddio plac yng Nghaerfyrddin gan Gymdeithas Ddinesig Caerfyrddin i Dorothea Bate 1878-1951, paleontolegydd arloesol.

Gwahoddodd Cymorth i Fenywod Cymru ni i ymuno â'u dathliadau pen-blwydd yn ddeugain yn Y Senedd ar Ionawr 25ain. Roedd yn ddiwrnod diddorol gyda chyfleoedd rhwydweithio gwerthfawr.

Cyflwynodd AMC/WAW enwau swffragetiaid a swffragistiaid o Gymru i'w hystyried ar gyfer ymgyrch Arloeswyr Swffrag Menywod mewn Llywodraeth Leol ac roeddem yn falch deall bod Margaret Haig Thomas (Arglwyddes Rhondda), Emily Phipps, yr Athro Millicent MacKenzie a Charlotte Price White, a enwebwyd gan AMC/WAW, wedi eu cynnwys ar restr derfynol yr Arloeswyr.

Rhwydwaith Feminist and Women's Libraries and Archives: cytunon ni i barhau'n aelodau o'r mudiad hwn ac i fynychu'r cyfarfodydd pan fo'n gyfleus.

Mae sawl cwmni teledu wedi cysylltu â ni e.e. One Tribe am raglen am fenywod mentrus ac un arall am y Ddeddf Erthylu. Mae aelodau wedi ymateb yn gadarnhaol i geisiadau o'r fath am wybodaeth.

Mynychodd sawl aelod agoriad yr Arddangosfa Swffrag yn Y Senedd a dadorchuddio'r plac porffor i Val Feld AC ar Fawrth 6ed. Siaradodd Catrin Stevens yn fyr ar ran AMC/WAW.

Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg: Mynychodd Jenny Sabine a Catrin Stevens sawl cyfarfod yn ymwneud â chreu arddangosfa am ymgyrchwyr arloesol am y bleidlais yn yr ardal ac a fydd ar gael ar gyfer Cynhadledd 2018 yn Abertawe.

Cynrychiolodd Elin Jones AMC/WAW ar grŵp Menywod Coffaol Cymru a gadeirir gan Helen Molyneux.

Mynychodd Chris Chapman dderbyniad Seneddol Menywod y Gymanwlad yn y Pierhead ar ein rhan ar 13eg Mawrth.

Rhoddodd Catrin Stevens sgwrs i Rwydwaith Cydraddoldeb Menywod ar Fawrth 21ain yn yr Eglwys Norwyaidd, Caerdydd am hanes AMC/WAW a hanes y mudiad swffrag yng Nghymru.

**Jenny Sabine, Chair April-October 2017 / Cadeirydd Ebrill-Hydref 2017**

**Catrin Stevens, Chair October 2017-March 2018/ Cadeirydd Hydref 2017 - Mawrth 2018**

## MEMBERSHIP SECRETARY'S REPORT 2017-18

Over the past year we have gained 27 new members. There is no doubt that the Annual Conference and events such as the International Women's Day event in Cardiff help to encourage people to join. However, we have also lost a number of long standing members through bereavement and for various other reasons. The membership figure currently stands at 240.

The membership is varied and includes organisations from the heritage sector including Archives, Libraries, Museums and other cultural associations.
Members can be found across Wales, outside Wales in areas such as Yorkshire, and in countries such as Northern Ireland, Scotland and Australia

The website work to enable online membership management and the option to join via PayPal is close to being finalised. It has been a challenging process, but we believe the end result will benefit the Archive.

Members' subscriptions remain the main source of income for the organisation:

| | |
|---|---|
| General membership | £15 |
| Retired/Student/unemployed | £10 |
| Institutions/organisations | £20 |

Membership is also available to give as a gift with one year's subscription being £15, two years £27 and three years £40.

Membership forms are available on the website: http://www.womensarchivewales.org/

## ADRODDIAD YR YSGRIFENNYDD AELODAETH 2017-18

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi caffael 27 o aelodau newydd. Heb os mae'r Gynhadledd Flynyddol a digwyddiadau fel Diwrnod Rhyngwladol Menywod yng Nghaerdydd yn gymorth i annog pobl i ymaelodi. Fodd bynnag, rydym wedi colli nifer o aelodau hir dymor trwy farwolaeth neu am resymau amrywiol eraill. Ar hyn o bryd nifer yr aelodau yw 240.

Mae'r aelodaeth yn amrywiol ac yn cynnwys sefydliadau o'r sector treftadaeth megis Archifau, Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd a mudiadau diwylliannol eraill.
Mae gennym aelodau ledled Cymru, y tu allan i Gymru mewn ardaloedd fel Swydd Efrog, ac mewn gwledydd fel Gogledd Iwerddon, yr Alban ac Awstralia.

Mae'r gwaith ar y wefan i alluogi rheoli'r aelodaeth a'r dewis i ymaelodi trwy PayPal bron wedi ei gwblhau. Mae wedi bod yn broses heriol ond credwn y bydd y canlyniad o fudd i'r Archif.

Tanysgrifiadau aelodau yw prif ffynhonnell incwm y gymdeithas:

| | |
|---|---|
| Aelodaeth gyffredinol | £15 |
| Wedi ymddeol/Myfyriwr/Di-waith | £10 |
| Sefydliadau/ Mudiadau | £20 |

Gellir rhoi aelodaeth yn rhodd hefyd gyda thanysgrifiad blwyddyn yn £15, dwy flynedd £27 a thair blynedd £40.

Gellir cael hyd i ffurflenni ymaelodi ar y wefan: http://www.womensarchivewales.org/

*Sue Thomas*
*Membership Secretary / Ysgrifennydd Aelodaeth*

## TREASURER'S REPORT 2017-18

The rise in the membership subscription rates this year has resulted in significant increased income and therefore Gift Aid reclaimed. Some members will have to be reminded to increase the amount in their standing order.

During the year £815 was raised from the use of images by S4C, Chwarae Teg and Public Service Broadcasting group, and a radio fee. Donations and sponsorship were very much appreciated. Thanks are also due to the Aberystwyth members who organised the annual conference with a good profit.

The new website has been by far our largest financial commitment this year. There has been a longer delay than foreseen, but when people are able to pay on line via the website, then I am confident that membership numbers will increase further.

The first instalment of the HLF grant for the Century of Hope project makes the account look reasonable, but we must prioritise fundraising in the near future for our core activities and commitments.

## ADRODDIAD Y TRYSORYDD 2017-18

Rhoddodd codi tanysgrifiadau aelodau eleni incwm ychwanegol sylweddol i ni ac felly hefyd y Cymorth Rhodd a adhawlir. Bydd yn rhaid i rai aelodau gael eu hatgoffa i gynyddu maint eu harcheb sefydlog.

Yn ystod y flwyddyn codwyd £815 trwy ddefnydd delweddau gan S4C, Chwarae Teg, grŵp Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus a ffi radio. Gwerthfawrogwyd rhoddion a nawdd yn arbennig. Rhaid diolch hefyd i'r aelodau yn Aberystwyth a drefnodd fod y gynhadledd flynyddol yn gwneud elw da.

Y wefan newydd fu'r ymrwymiad cyllidol mwyaf o lawer eleni. Bu'n broses hirach na'r disgwyl, ond pan fydd pobl yn gallu talu ar-lein trwy'r wefan, rwy'n hyderus y bydd nifer yr aelodau yn cynyddu ymhellach.

Mae rhandaliad cyntaf grant CTL ar gyfer y prosiect Canrif Gobaith yn gwneud i'r cyfrif ymddangos yn rhesymol, ond rhaid i ni flaenoriaethu codi arian ar gyfer ein gweithgareddau craidd a'n hymrwymiadau eraill yn y dyfodol agos.

Gail Allen

*Treasurer / Trysorydd*

**AMC/WAW TRUSTEES / YMDDIRIEDOLWYR 2017-18**

**President/Llywydd: Emeritus Professor / yr Athro Emeritws Deirdre Beddoe**

**Jenny Sabine** (Chair/ Cadeirydd April–October **/** Ebrill-Hydref 2017)

**Catrin Stevens** (Chair/Cadeirydd October 2017–March 2018 / Hydref 2017-Mawrth2018)

**Christine Chapman** (Member May 2017- / Aelod Mai 2017-; Vice-Chair / Is-gadeirydd from November **/** o Dachwedd 2017)

**Gail Allen** (Treasurer / Trysorydd)

**Avril Rolph** (Secretary / Ysgrifennydd)

**Sue Thomas** (Membership Secretary / Ysgrifennydd Aelodaeth)

**Caroline Fairclough** (Newsletter Editor / Golygydd Cylchlythyr)

**Shan Robinson** (Minutes Secretary / Ysgrifennydd Cofnodion)

**Elin Jones**

**Dinah Evans**

**Val Wakefield**

**Catrin Edwards** until January 2018 / tan Ionawr 2018

**Sue Trevelyan-Jones**

**Emma Naughton** (resigned April 2017 / wedi ymddeol Ebrill 2017)

**Gwyneth Roberts** from October 2017 / ers Hydref 2017

**Kate Sullivan** from October 2017 / ers Hydref 2017

**Advisors / Ymgynghorwyr**

**Susan Edwards / Rhian Diggins**, Glamorgan Archives / Archifau Morgannwg

**Archif Menywod Cymru / Women's Archive Wales**

**c/o Archifau Richard Burton / c/o Archifau Richard Burton**

**Llyfrgell Parc Singleton / Singleton Park Library**

**Prifysgol Abertawe / Swansea University**

**Campws Parc Singleton / Singleton Park Campus, Abertawe/Swansea SA2 8PP**